

CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI
COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH, 10 IONAWR 2023 A GYNHALIUYD
YNG NGHANOLFAN TALYSARN AM 7.00 O'R GLOCH.

1. **Presennol** – Gwyndaf Roberts (cad), Hefina Roberts, Christine Hughes – Llanllyfni, Harry Owen, Gareth Jones, – Talysarn, Barry Bracegirdle, Ceri Owen, Justin Davies, Erfyl Williams, Dylan Herbert – Penygroes, Dafydd Thomas - Nebo. Cyng. Peter Thomas.

Ymddiheuriadau – Judith Humphreys – Penygroes, Ffion Jones - Nantlle, Dafydd Thomas – Nebo, Siân Dafydd – Talysarn.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd a dymuno flwyddyn newydd dda i bawb.

2. **Datgan Buddiant** – nid oedd neb yn datgan buddiant

3. **Gwadd** - Croesawyd Mair Edwards o Grŵp Cynefin i'r cyfarfod i roi diweddariad ar Ganolfan Iechyd a Lles Dyffryn Nantlle. Hefyd roedd Ben Gregory wedi dod gyda Mair i'r cyfarfod. Esboniwyd bod tîm wedi ei roi yn ei le nawr ar gyfer y dylunio ayyb a bod yna strwythur rheoli yn ei le o brif bartneriaid ar y bwrdd. Mae cyfarfodydd amlach a mwy manwl nawr yn cymryd lle i drafod materion a beth mae pob partner ei angen er mwyn sefydlu'r ganolfan. Arolygon safle wedi bod yn mynd ymlaen. Esboniodd bod costau erbyn hyn wedi mynd fyny yn sylweddol a bod yr amcan o £34m wedi mynd fyny i £50m erbyn hyn. Os aiff pethau ymlaen fel y disgwyl yna gobeithio dechrau ar y safle 2024/25 gyda symud fewn yn 2027/28. Esboniodd Ben ei fod o wedi dod i'r cyfarfod er mwyn pwysleisio pwysigrwydd nad yw'r ganolfan yn tynnu oddi ar bethau eraill sydd wedi eu sefydlu yn Nyffryn Nantlle yn barod. Dywedwyd bod 'social prescribing' yn mynd ymlaen a bydd neuaddau / canolfannau lleol yn cael budd o hyn cyn bydd y ganolfan Lleu yn barod. Rhoddwyd cyfle i bawb holi unrhyw gwestiynau a gofynnwyd a oedd yna gwtogi ar y cynlluniau nawr bod costau wedi codi? - NA. Bydd yna dal gartref gofal gyda 36 gwely, canolfan iechyd, swyddfeydd Grŵp Cynefin, canolfan gymunedol, 17 fflat ar gyfer pobl hŷn a theatr Bara Caws. Codwyd bod parcio yn bryder a rŵan mae'r maes parcio yn brysur a gyda chynllun fel hyn a oes yna sôn am faes parcio ychwanegol? Esboniwyd ar hyn o bryd bod yna 78 man parcio ym Mhenygroes a gyda'r cynllun hyn bydd yna 95. Holwyd os oedd yna fannau parcio gwefru (charging points) am eu gosod - OES ond nid yn siŵr faint eto. Codwyd bod y Cyngor Cymuned wedi bod yn trafod hyn o'r blaen a'i fod am fod o les i'r gymuned os oeddynt am osod rhai - os yw'r ganolfan les am osod rhai a fydd y gymuned yn ei cholled - bydd angen trafodaeth bellach ar hyn eto a dywedwyd y buasai modd cydweithio ar hyn. Adroddwyd mai Faithful & Gould yw'r syrfewyr ar gyfer y prosiect. Diolchwyd i Mair a Ben am eu hamser heno.

4. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod 13 Rhagfyr 2022** - cynigiodd Ceri fod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd gan Hefina. Cytunodd pawb.

5. **Materion yn codi o'r cofnodion** – nid oedd materion yn codi o'r cofnodion nad yw yn cael eu trafod nes ymlaen yn y cyfarfod hwn.

6. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd pawb wedi derbyn copi o adroddiad Cyng. Peter Thomas ymlaen llaw i'w darllen. Roedd Peter wedi holi os oedd pentrefi eraill y gymuned am dderbyn goleuadau Nadolig, yn anffodus nid yw hyn yn bosib ac esboniodd Gwyndaf wrtho paham - mae i ymwneud a'r polion trydan sydd yn y pentrefi eraill. Roedd rhai o'r cynghorwyr yn siomedig iawn nad oedd adroddiadau yn dod gan yr holl gynghorwyr sir ar y ward a gofynnwyd i Nia gysylltu gyda nhw i ofyn a oes modd cael adroddiad misol ganddynt.

7. **Materion Pentrefi - Talysarn** - gofynnwyd a oedd modd gofyn i Gyngor Gwynedd ddod i lanhau draenau ayyb yn dilyn yr holl wynt a glaw sydd wedi bod yn ddiweddar a dail wedi blocio'r draenau. Gofynnwyd a fuasai modd gyrru llythyr i Gwyn Williams, Plas Madog i ddiolch iddo am osod a thynnu'r goeden Nadolig? **Nebo** - tyllau yn y ffyrdd yn gwaethygu a Ffordd Pant Y Gog yn wael iawn ac angen sylw brys. Adroddwyd bod offer wedi eu derbyn bellach gan Cadw Cymru'n Daclus ar gyfer Y Parc. **Penygroes** - ceir yn parcio ar y llinellau zigzag ar y groesffordd sydd yn achosi problemau a dim i'w weld yn cael ei wneud am y mater, hefyd parcio ar y palmentydd dal yn broblem - y ddau fater yma yn beryglus ac angen sylw. Tyllau yn y ffyrdd yn gwaethygu ac angen sylw. Unwaith eto nid oes dim o'r gwaith

a godwyd mewn cyfarfodydd blaenorol wedi eu cario allan gan Gyngor Gwynedd ac angen mynd ar eu holau unwaith eto. **Llanllyfni** - cwynion dyddiol yn cael eu derbyn am gyflwr y ffordd ar tyllau yn gwaethygu. Arwydd SATNAV heb ei osod yn Berth er wedi holi Cyngor Gwynedd ychydig fisoedd yn nôl am un. Y clerch i gysylltu gyda'r adrannau / sefydliadau addas am y materion hyn.

8. **Cyfarfodydd is-bwyllgorau** - nid oedd cyfarfodydd wedi eu cynnal yn ystod y mis.

9. **Taflen ariannol a chyllid** - roedd pawb wedi derbyn copi o'r daflen ymlaen llaw i'r cyfarfod i edrych drostynt. Aeth Gareth drwy bopeth. Esboniodd bod yna dipyn o arian ar ôl gan nad yw'r arian a glustnodwyd i'r prosiect ieuencid wedi ei ddefnyddion. Mae chwarter y flwyddyn ar ôl ac mae'n edrych fel y bydd yna dipyn o arian wrth gefn. Hefyd hyd yn hyn mae yna ad-daliad TAW o £2800 i ddod fewn. Awgrymodd Gareth y buasai yn syniad cael is-bwyllgor cyllid yn fuan i drafod cyllideb 2023/24 ayyb. Cytunwyd i gynnal is-bwyllgor ar nos Fercher 1af Chwefror a hefyd gellir trafod y ceisiadau am gyfraniad ariannol yn yr un cyfarfod. PRAESEPT 23/24 - roedd Gareth wedi paratoi tabl i bawb ymlaen llaw er mwyn gweld faint fuasai cost os yn codi'r praesept. Edrychwyd a fydd yna gostau mawr at y flwyddyn ariannol nesaf a nod oes dim i weld. Trafodwyd a phenderfynwyd yn unfrydol i beidio â chodi'r praesept a'i gadw ar £50,000. Diolchwyd i Gareth am ei waith gyda hyn.

10. **Llwybrau a Mynwentydd** - esboniodd Gwyndaf i'r pwyllgor bod gwaith brys wedi gorfod cael ei gario allan ar y tapiau dŵr yn Fynwentydd Macpela a Sant Rhedyw yn dilyn y tywydd rhewllyd a bod dau dap newydd wedi cael eu gosod yno. Adroddodd Dafydd Thomas ei fod wedi sylwi nad yw pob llwybr yn cael eu torri yn gyfan gwbl a bod yna rai ddim yn cael eu torri o gwbl. Cynigwyd y dylid gofyn i'r contractwyr am restr o'r llwybrau sydd wedi eu torri i gyd a hefyd gofyn am anfoneb cyn y cyfarfod nesaf.

11. **Prydles Cwtîn - Yr Orsaf** - roedd Nia wedi cysylltu gyda Gwenllïan o'r Orsaf ynglŷn â chodi rhent am y defnydd o'r tir yn Cwtîn, ond roedd eisiau gwybod faint felly bydd yn rhaid i hyn gael ei drafod. Esboniwyd mai costio mae'r darn tir hwn i'r Cyngor Cymuned ar hyn o bryd a bydd yr Orsaf yn ei gynnal a'i gadw ac yn edrych ar ôl y tir. Cynigiodd Gwyndaf y dylid gofyn am £100 y flwyddyn am y tir, sef oddeutu £2 yr wythnos. Eiliodd Barry y cynnig hwn. Gofynnwyd a yw'r Cwtîn ar bolisi yswiriant y Cyngor Cymuned - YDI, ond bydd yn trosglwyddo i yswiriant yr Orsaf pan fyddent yn ei gymryd ar brydles. **Ystafelloedd Newid CPD Talysarn Celts** - adroddwyd bod Cyngor Gwynedd eisiau drafftio'r gwaith yma eu hunain ar gyfer trosglwyddo'r brydles yn nôl iddynt. Gan nad yw Siân yn y cyfarfod heno pasiwyd i yrru neges Daniel Lewis ymlaen iddi a gofyn beth yw ei barn am sut y dylid symud ymlaen.

12. **Ceisiadau ariannol** - fel y trafodwyd ym mhwynt 9 bydd cyfarfod yn cael ei gynnal ar 1af Chwefror i drafod y ceisiadau.

13. **Ceisiadau Cynllunio** – C22/1137/22/DT – Eryl, Ffordd Y Brenin, Penygroes – estyniad – **dim gwrthwynebiad**
C22/1148/22/MG - Cymru Fudd, Penygroes - rhyddhau amod 2 a 3 ar ganiatâd rhif C21/0911/22/LL - **holodd Ceri pam bod eisiau diddymu'r amodau hyn - dywedodd Justin y buasai yn holi am hyn.**

14. **Gohebiaeth** - Cyngor Gwynedd – newidiadau arfaethedig i derfynau cyflymder. – **dim gwrthwynebiad**

15. **Materion Ariannol** - cytunwyd i dalu'r rhain

- Nia Jones - Ffôn a rhyngrwyd - **£25.00**

- Siân Dafydd - batris golau Nadolig - **£9.30**

- Clwyd Water – prawf dŵr ystafelloedd newid - **£205.00**

- Eulwyn Hughes – tapiau mynwentydd - **£141.28**

- Antur Nantlle – cynnal a chadw'r wefan 2021 a 2022 - £240+48TAW = **£288.00**

- Papur Bro Lleu - hysbyseb cyfraniadau ariannol - **£38.00**